RHWYDWAITH DARPARWYR HYFFORDDIANT

# Trefniadau mynediad, a pholisi addasiadau rhesymol



Cyhoeddwyd gan CITB, 4 Cyrus Way, Hampton, Peterborough, PE7 8HP.

© Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu 2025

Cyhoeddwyd gyntaf ym mis Awst 2025.

Mae CITB wedi'i gofrestru fel elusen yng Nghymru a Lloegr (Rhif Cofrestru 264289) ac yn yr Alban (Rhif Cofrestru SC044875).

Mae CITB wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir. Paratowyd y pecyn hwn fel adnodd y gellir ei lwytho i lawr. Gellir ei ddefnyddio heb ganiatâd pellach gan CITB ar yr amod ei fod yn cael ei ddefnyddio o fewn sefydliad y darparwr hyfforddiant cymeradwy yn unig ac nad yw'n cael ei ddefnyddio i gael unrhyw fantais neu elw.

## Cwmpas

Yr holl gynnyrch a gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan aelodau o rwydwaith darparwyr hyfforddiant CITB, gan gynnwys hyfforddiant a allai gael cymorth ariannol gan CITB neu beidio, fel y nodir isod.

- Cynnyrch sydd wedi'i gymeradwyo yn y categori wedi'i sicrhau.

- Cynnyrch yn y categori trwyddedig:
    - Site Safety Plus
    - Profion iechyd, diogelwch a'r amgylchedd
    - Cynnyrch sy'n cael cefnogaeth ariannol gan CITB.

## Cyflwyniad

Ysgrifennwyd y ddogfen hon yn benodol i gefnogi aelodau o Rwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB a'u staff cyflawni, ar gyfer pob cynrychiolydd sydd â threfniadau mynediad a/neu addasiad rhesymol,

Bwriad y ddogfen yw ategu’r llawlyfr i ddarparwyr hyfforddiant CITB, ond nid ei ddisodli. Mae’n rhaid defnyddio’r polisi hwn ar y cyd â’r ddogfen gyffredinol honno.

Mae'r polisi'n rhoi manylion ymrwymiad CITB i Gyfle Cyfartal ac Amrywiaeth ac mae ar gael i ddarparwyr a chynrychiolwyr ar wefan CITB. Mae'r polisi hefyd wedi’i rannu â thîm sicrhau ansawdd CITB i'w alluogi i gefnogi aelodau'r rhwydwaith darparwyr hyfforddiant.

Mae CITB yn mynnu bod gan ddarparwyr hyfforddiant bolisi ysgrifenedig cyfredol ar gyfer Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth. Mae’n rhaid iddo nodi hefyd sut y bydd y darparwr yn defnyddio **amodau arbennig** a/neu **addasiadau rhesymol** ar gyfer cynrychiolwyr sydd angen addasiad dysgu a/neu anabledd cyn dechrau unrhyw hyfforddiant.

Os yw'r gofynion mynediad arbennig a/neu hyfforddiant a/neu asesu penodol ar gyfer cynnyrch trwyddedig, (Site Safety Plus neu brawf Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd), mae’n rhaid i chi ddefnyddio'r addasiad fel y disgrifir yn y ddogfen hon, cyn dechrau unrhyw hyfforddiant neu brawf.

## Beth yw trefniadau mynediad?

Cytunir ar drefniadau mynediad cyn cofrestru ar gwrs. Maent yn caniatáu i gynrychiolwyr ag anghenion penodol, fel anghenion addysgol arbennig, anableddau neu anafiadau dros dro, i gael mynediad at yr asesiad a dangos beth maent yn ei wybod ac yn gallu ei wneud heb newid gofynion yr asesiad. Y bwriad y tu ôl i drefniant mynediad yw diwallu anghenion cynrychiolydd unigol heb effeithio ar uniondeb yr asesiad. Trefniadau mynediad yw'r brif ffordd y mae CITB, a darparwyr hyfforddiant, yn cydymffurfio â'r ddyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i wneud 'addasiadau rhesymol'.

## Beth yw addasiad rhesymol?

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn mynnu bod CITB a’r darparwr hyfforddiant yn gwneud addasiadau rhesymol os byddai cynrychiolydd, sy'n anabl o fewn ystyr Deddf Cydraddoldeb 2010, dan anfantais sylweddol o'i gymharu â rhywun nad yw'n anabl.

Mae'n ofynnol i CITB a/neu ddarparwr hyfforddiant gymryd camau rhesymol i oresgyn yr anfantais honno. Enghraifft fyddai darllenydd cyfrifiadur, amser ychwanegol a phrosesydd geiriau, a fyddai'n addasiadau rhesymol ar gyfer cynrychiolydd ag amhariad ar y golwg. Gall addasiad rhesymol fod yn unigryw i’r unigolyn hwnnw.

Wrth ystyried a yw’r addasiad yn rhesymol bydd angen talu sylw i nifer o ffactorau a fydd yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- anghenion y cynrychiolydd anabl
- effeithiolrwydd yr addasiad
- cost yr addasiad, **ac**
- effaith yr addasiad ar y cynrychiolydd a chynrychiolwyr eraill.

**Ni fydd** addasiad yn cael ei gymeradwyo os yw’n:

- golygu costau afresymol i CITB a/neu ddarparwr hyfforddiant
- golygu amserlenni afresymol; **neu’n**
- effeithio ar ddiogelwch ac uniondeb yr asesiad.

Mae hyn am nad yw’r addasiad yn ‘rhesymol’.

Yn y rhan fwyaf o achosion, **ni fydd** yn rhesymol gwneud addasiadau i amcanion asesu o fewn safon, cwrs neu gymhwyster. Byddai gwneud hynny'n tanseilio effeithiolrwydd y canlyniad o ran darparu arwydd dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y cynrychiolydd. Nid oes dyletswydd i wneud unrhyw addasiadau y mae'r corff gosod safonau wedi nodi na ddylid eu gwneud.

## Mathau o addasiadau rhesymol

Mae'r rhestr isod yn cynnwys trefniadau mynediad/addasiadau rhesymol sy'n cael eu dirprwyo i ganolfannau. Nid yw'r trefniadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr hyfforddiant brosesu cais ar-lein na chyflwyno unrhyw dystiolaeth o’r angen am arolygiad yn y rhan fwyaf o achosion.

Mae'r darparwr hyfforddiant wedi'i rymuso ar lefel leol i benderfynu pa mor briodol a rhesymol yw'r trefniant. Fodd bynnag, mae’n rhaid i'r darparwr hyfforddiant fod yn fodlon bod angen y trefniant/trefniadau, a chadw tystiolaeth ddogfennol i gefnogi ei benderfyniad.

Bydd y darparwr yn seilio ei benderfyniad ar ffordd arferol y cynrychiolydd o weithio ac a yw ei nam yn cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor.

**Mae'r trefniadau canlynol yn benderfyniadau sydd wedi cael eu dirprwyo i ddarparwyr hyfforddiant:**

- **Amser ychwanegol o hyd at 25% o'r amser a gyhoeddwyd ar gyfer arholiadau***
- Trefniadau i ddarparu ystafell arall – sefyll yr asesiad y tu allan i'r brif neuadd/ystafell asesu, e.e. ystafell ar gyfer grŵp llai o gynrychiolwyr gydag anghenion tebyg, neu un-i-un gyda'r goruchwyliwr.
- Offer chwyddo sain
- Geiriadur dwyieithog
- Trawsgrifiad Braille
- Y goruchwyliwr i enwi lliwiau ar gyfer ymgeiswyr sy'n lliwddall
- Troshaenau lliw
- Cyfathrebwr Proffesiynol (ar gyfer ymgeiswyr sy'n defnyddio Iaith Arwyddion)
- Arholiad ar bapur lliw/mawr
- Teganau ffidlan a pheli straen
- Siaradwr byw ar gyfer elfennau o'r arholiad sydd wedi'u recordio ymlaen llaw
- Cymorth golwg gwan/chwyddwydr
- Amddiffynwyr clustiau/plygiau clustiau nad ydynt yn electronig
- Clustffonau nad ydynt yn electronig
- Sganwyr Darllenydd Nodau Optegol (OCR)
- Cofweinydd
- Darllen yn uchel (a all gynnwys ysgrifbin darllen arholiad (*nid oes angen gosod meddalwedd ar gyfrifiadur))*
- Papur sgwariau ar gyfer anawsterau gofodol gweledol
- Cyfnodau egwyl dan oruchwyliaeth
- Amserydd ar ddesg yr ymgeisydd
- Prosesydd geiriau (gyda'r gwiriwr sillafu a gramadeg wedi'i ddiffodd).

Mae'n ofynnol i'r darparwr hyfforddiant ddefnyddio 'ffurflen 1 CITB' i nodi unrhyw ofyniad mynediad a/neu addasiad rhesymol ar gyfer y categorïau uchod ar gyfer pob cynrychiolydd y mae'r addasiad yn berthnasol iddo.

***Mae angen tystiolaeth ar gyfer yr addasiad hwn. Datganiad o angen addysgol neu asesiad tiwtor arbenigol.***

Mae'r trefniadau canlynol yn ei gwneud yn ofynnol i gais gael ei gyflwyno gan y darparwr hyfforddiant, ynghyd â thystiolaeth o'r angen ar **'ffurflen 2 CITB'** at quality.assurance@citb.co.uk, gan roi'r teitl '**Cais am drefniant mynediad a/neu addasiad rhesymol**' ar yr e-bost.

- Mynediad at ffôn symudol at ddibenion meddygol
- Geiriadur dwyieithog gyda 25% o amser ychwanegol
- Darllenydd cyfrifiadur/darllenydd. (*Mae angen gosod meddalwedd ar y cyfrifiadur*)
- Amser ychwanegol dros 25%
- Gwrando ar gerddoriaeth/sŵn gwyn oherwydd nam sylweddol
- Cynorthwyydd Ymarferol
- Goruchwylio o bell*
- Ysgrifennydd/technoleg adnabod llais
- Amrywio'r amserlen ar ddiwrnod yr arholiad ar gyfer ymgeisydd ag anabledd
- Amrywio'r amserlen lle mae angen goruchwyliaeth dros nos ar gyfer ymgeisydd ag anabledd

**Gallai goruchwylio o bell fod yn dderbyniol dan* ***amgylchiadau eithriadol iawn****.*

Efallai y bydd angen addasiadau eraill ar gynrychiolydd anabl nad ydynt wedi'u rhestru yn y ddogfen hon. Felly, nid yw hon yn rhestr gyflawn o drefniadau. Os oes gan gynrychiolydd anghenion sylweddol nad ydynt yn cael eu diwallu gan drefniadau mynediad ar-lein, mae'n rhaid i'r darparwr hyfforddiant wneud atgyfeiriad dros e-bost at y tîm sicrhau ansawdd.

Efallai y bydd angen gwaith papur ychwanegol i gyfiawnhau'r cais sy'n cael ei wneud. Efallai y bydd angen tystiolaeth fwy cymhellol o'r angen ar CITB cyn cymeradwyo trefniant a fyddai fel arall o fantais annheg i'r cynrychiolydd. Mae'r gofyniad am dystiolaeth o'r angen yn bwysig er mwyn cynnal trylwyredd a safon y system asesu.

Mae angen tystiolaeth hefyd i sicrhau bod y rheini sy'n defnyddio canlyniadau asesu yn gallu parhau i fod â hyder yn y cyflawniadau sy'n cael eu cefnogi drwy rwydwaith darparwyr hyfforddiant CITB.

# Ffurflen 1 CITB – Trefniant mynediad a/neu addasiadau rhesymol a awdurdodir gan y Darparwr Hyfforddiant

Mae'r ffurflen isod wedi'i chynllunio i chi nodi unrhyw addasiadau rhesymol rydych chi wedi'u cymeradwyo ar sail y gofynion cymhwysedd a thystiolaeth a nodir yn y trefniadau mynediad, a'r polisi addasiadau rhesymol. Rhaid i'r ffurflen hon fod ar gael i'w harchwilio gan Uwch Ymgynghorydd Ansawdd CITB yn ystod yr ymweliad monitro nesaf.

| Dyddiad | Enw'r cynrychiolydd | Teitl y cwrs | Trefniant mynediad | Llofnod awdurdodi'r darparwr | Llofnod Uwch Ymgynghorydd Ansawdd CITB |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

# Ffurflen 2 CITB – Trefniant mynediad a/neu addasiadau rhesymol a awdurdodir gan Sicrhau Ansawdd CITB

Mae'r ffurflen isod wedi'i chynllunio i chi nodi unrhyw drefniant mynediad a/neu addasiadau rhesymol y mae angen awdurdodiad arnoch ar eu cyfer gan CITB yn seiliedig ar y tabl uchod. Rhaid i chi lenwi'r holl feysydd data a restrir isod ac anfon y ffurflen wedi'i llenwi at Sicrhau Ansawdd CITB i'w hawdurdodi **cyn** gwneud yr addasiad rhesymol.

| Enw'r cynrychiolydd | Dyddiad y cwrs | Enw'r Cwrs | Trefniant Mynediad | Wedi'i gymeradwyo gan CITB (Do/Naddo) |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |

**Awdurdodiad y Ganolfan**

Rwyf wedi adolygu trefniadau mynediad a pholisi addasiadau rhesymol Rhwydwaith Darparwyr Hyfforddiant CITB Awst 2025 ac rwy'n fodlon bod y cais am drefniant mynediad a/neu addasiadau rhesymol yn bodloni gofynion Darparwyr Hyfforddiant CITB i'w cymeradwyo.

Enw ……………………………………………………………………………………………………......

Teitl y swydd…………………………………………………………………………………………………

Dyddiad………………………………………………………………………………………………………

Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen a'i llofnodi, a fyddech cystal â'i hanfon at quality.assurance@citb.co.uk

**At ddefnydd Sicrhau Ansawdd CITB:** Cymeradwywyd/Ni chymeradwywyd

Enw………………………………………………………………… Dyddiad……………………………………………..

Teitl y swydd…………………………………………………………..

**Teitl**

# Pennawd 1

Lorem ipsum dolor sit amet, consectetur adipiscing elit. Nullam interdum. Maecenas sed libero. Fusce ut eros id velit ultricies laoreet. Nam pulvinar massa sit amet nunc. Nullam volutpat ullamcorper lorem. Donec tincidunt, nulla eu bibendum lobortis, enim nulla posuere massa, vel vulputate nulla enim sit amet mi. Quisque non leo. Nunc laoreet, dui at pellentesque tristique, libero justo mollis nunc, vel malesuada nulla risus et dui. Etiam lacus. Sed molestie pede non est. Nulla luctus augue in odio. Morbi tincidunt tortor. Aliquam sagittis mi at diam. Maecenas commodo mi sed leo. Nullam auctor porta nisl. Quisque eget quam. Integer vulputate tempor augue. Aenean facilisis metus ullamcorper lacus. Ut purus libero, semper sit amet, convallis in, condimentum ultrices, leo. Suspendisse convallis, elit quis viverra pretium, velit lorem dictum lectus, varius vestibulum nisl sem id dolor.

## Pennawd 2

Praesent mattis congue dui. Nullam imperdiet semper erat. Quisque mi. Suspendisse arcu. Curabitur gravida faucibus ante. Donec vehicula consequat dui. Aliquam magna lacus, volutpat vitae, placerat ac, consequat sit amet, orci. Nunc mattis mi nec sem. Proin nec odio at ligula euismod consectetur. Cras ullamcorper tellus viverra neque. Nam urna. Nunc imperdiet, tellus et tristique interdum, eros libero rhoncus pede, vitae pellentesque ipsum felis vitae urna.

### Pennawd 3

Curabitur faucibus, ipsum non eleifend volutpat, sem ligula sagittis sapien, eget vulputate nisl felis nec orci. Suspendisse non ante eget elit congue tempus. Praesent sit amet neque. Vestibulum iaculis nisl sit amet metus. Nam placerat neque id elit. Nunc sapien ante, blandit eget, ullamcorper eu, ullamcorper at, libero. Nunc fringilla euismod nisl. Etiam nec pede. Nullam id urna. Vestibulum justo felis, faucibus at, scelerisque sed, aliquet ac, purus. Nulla blandit auctor turpis. Ut libero lectus, scelerisque et, sollicitudin bibendum, sollicitudin sed, turpis. Proin volutpat ante a orci. Nulla ut dolor quis pede semper auctor. Vivamus ultrices pellentesque velit. Etiam id mauris. Pellentesque iaculis tellus sit amet tellus.